Hawdd ei ddeall

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ein cynllun ni ar gyfer 2020-2024

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o '**Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024**' Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Ionawr 2020

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae e mewn ysgrifen glas normal. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Cyfeiriad:
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion, Doc Penfro
Sir Benfro, SA72 6DY

Ffôn: 01646 624800

E-bost: info@pembrokeshirecoast.org.uk

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....2

Cyflwyniad.....4

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.....4

Am y ddogfen yma.....6

Pam bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn arbennig?.....8

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthyn ni.....8

Helpu economi Cymru.....10

Ein cynlluniau ni.....11

1. Amddiffyn yr amgylchedd a'i wneud yn well i'r bobl sydd yn byw a gweithio yno.....11
2. Helpu pobl i ddefnyddio a mwynhau'r Parc.....13
3. Gwneud bioamrywiaeth y Parc yn well.....16
4. Dathlu ein hanes ni.....18
5. Dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.....20
6. Edrych ar ôl ein hadnoddau naturiol ni.....21

Camau nesaf.....23

Geiriau anodd.....24

Cyflwyniad

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn lle arbennig a chyffrous. Dyma'r unig barc cenedlaethol yn y DU sydd yn bennaf ar yr **arfordir**– mae hyn yn meddwl tir yn agos at y môr.

Fe ddaeth yr ardal yn barc cenedlaethol bron i 70 mlynedd yn ôl. Mae parc cenedlaethol yn ardal arbennig o gefn gwlad sydd yn cael ei amddiffyn i bawb ei fwynhau.

Yn 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru benderfynu y dylai'r Parciau Cenedlaethol:

- Fod ar gyfer pawb yng Nghymru i'w defnyddio.

- Helpu pobl i fwynhau natur a **diwylliant** Cymru.

Mae **diwylliant** yn meddwl syniadau, gwerthoedd a thraddodiadau sydd gan grŵp o bobl.

- Gwneud yr **amgylchedd** leol yn well.

Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr aer a phopeth sydd yn byw ynddo fe ac arno fe. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid a physgod.



- Gwneud bywydau pobl yn well.

- Gwneud **economi** Cymru yn well.

Mae'r **economi** yn meddwl y swyddi mae pobl yn eu gwneud a'r arian sydd ganddyn nhw.

Am y ddogfen yma



Dyma ydy ein cynllun ni i wneud Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn well.

Ein prif 6 nod ydy:

1. Amddiffyn yr amgylchedd. A'i gwneud yn well i'r bobl sydd yn byw ac yn gweithio yn y parc.

2. Dysgu pobl am yr ardal er mwyn iddyn nhw allu defnyddio a mwynhau'r parc.

3. Gwneud yn siŵr bod gennym ni lawer o wahanol blanhigion a bywyd gwyllt yn y parc.

4. Dathlu ein hanes ni.

5. Dathlu’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

6. Edrych ar ôl ein **hadnoddau naturiol** ni.

Adnoddau naturiol ydy pethau yn yr amgylchedd rydyn ni’n gallu eu defnyddio. Er enghraifft: dŵr i’w yfed, bwyd i’w fwyta, aer i’w anadlu, gwynt a dŵr i wneud ynni.

Cyn inni wneud y cynllun yma fe wnaethon ni siarad â grwpiau eraill a’r cyhoedd.

Rydyn ni wedi defnyddio rhai o’u syniadau nhw yn y cynllun yma.

Pam bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn arbennig?

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthyn ni

Fe wnaethon ni siarad â phobl sydd yn byw yn y parc. Fe wnaethon ni hefyd siarad â phobl sydd yn dod i'r parc. Fe wnaethon nhw ddweud wrthyn ni bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn arbennig oherwydd:

- Mae'n **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pawb yn gallu dod yno a'i ddefnyddio yn hawdd.

- Mae ganddo fe ynysoedd ac arfordir hardd.

- Mae'n teimlo'n bell i ffwrdd o'r ddinas.

- Mae'n rhoi lle i bobl anadlu.

- Mae ganddo fe lawer o hanes a diwylliant.

- Mae llawer o wahanol fywyd gwyllt yn byw yn y parc.

- Mae llawer o wahanol greigiau yno.

- Mae llawer o adeiladau diddorol yno.

- Mae llawer o fathau o leoedd yn y parc, fel traethau, clogwyni, coed a chaeau.

Helpu economi Cymru

Mae parciau cenedlaethol Cymru yn rhoi £1 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn.

Mae llawer o'r arian yma yn dod oddi wrth ymwelwyr.

Pan mae pobl yn dod i barc cenedlaethol, efallai eu bod nhw'n gwario arian ar westy, mewn bwyty neu mewn siop leol.

Yn 2017, fe wnaeth ymwelwyr wario £346 miliwn ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae'r arian yma yn bwysig oherwydd mae'n rhoi gwaith i bobl. Fe wnaeth yr arian yma greu 11 mil o swyddi i bobl.

Ein cynlluniau ni

1. Amddiffyn yr amgylchedd a'i gwneud yn well i'r bobl sydd yn byw ac yn gweithio yno

Rydyn ni eisiau gwneud hyn drwy:

- Cynnwys llawer o wahanol bobl pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau am y parc.

- Plannu rhagor o goed a llwyni o amgylch caeau.

- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n adeiladu siopau a thai newydd mewn ffordd sydd ddim yn gwneud drwg i'r amgylchedd.

- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n adeiladu rhai tai sydd ddim yn costio gormod.

- Meddwl am beth sydd yn gallu gwneud drwg i'r amgylchedd a gwneud cynlluniau i stopio hyn rhag digwydd.

- Gosod pethau fel ceblau dan ddaear fel bod pobl yn gallu mwynhau'r parc.

- Helpu pobl i ddefnyddio llai o olau fel bod pobl yn gallu mwynhau yr awyr nos ddu.

- Helpu pobl i ddefnyddio llai o geir. Fe fydd hyn yn gwneud traffig yn well ac yn gwneud yr ardal yn llai swnllyd.

- Gweithio gyda grwpiau eraill i wneud trafnidiaeth cyhoeddus hygyrch sydd ddim yn costio gormod.

2. Helpu pobl i ddefnyddio a mwynhau'r parc

Mae bod yng nghanol natur yn gallu bod yn dda i'ch iechyd a'ch **llesiant**.

Eich **llesiant** ydy unrhyw beth i wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd.

Rydyn ni eisiau:

- Dweud wrth ragor o bobl am y Parc Cenedlaethol. Yn enwedig pobl o ardaloedd mwy tlawd a theuluoedd gyda phlant ifanc.

- Gwneud gwahanol ardaloedd o'r parc yn fwy hygyrch.

- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n dweud wrth bobl bod y parc yn hygyrch er mwyn iddyn nhw allu dod yno.

- Gwneud y dŵr yn lannach mewn ardaloedd lle mae pobl yn nofio.

- Dweud wrth ragor o bobl am bethau i'w gwneud yn y parc. Fel seiclo, nofio neu fynd ar gwch.

- Gwneud **Llwybr Cerdded Arfordir Penfro** yn well. A dweud wrth ragor o bobl amdano fe.

- Gweithio gyda grwpiau a'r cyhoedd i wneud llwybrau cerdded a llwybrau seiclo yn well.

- Gweithio gyda grwpiau sydd yn darparu gwasanaethau iechyd yn y parc. Fel clybiau cerdded neu grwpiau sydd yn cefnogi pobl gyda **dementia**.

Mae **dementia** yn effeithio ar yr ymennydd. Mae pobl gyda dementia yn cael trafferth gyda'r cof ac maen nhw'n gallu mynd yn ddryslyd. Fel arfer mae'n effeithio ar bobl hŷn.

- Meddwl am gynllun i gadw'r traethau yn lân ac yn ddiogel.

- Dysgu pobl am fywyd gwyllt yn y parc. Fel nad ydyn nhw'n poeni'r anifeiliaid.

- Helpu pobl i ddefnyddio'r parc yn y ffordd gywir. Fel gwersylla yn y lleoedd cywir.

- Rhoi'r sgiliau maen nhw eu hangen i bobl wirfoddoli yn y parc.

- Dysgu pobl am hanes a diwylliant y parc mewn ffordd gyffrous.

- Trefnu digwyddiadau i blant er mwyn iddyn nhw allu dysgu am natur mewn ffordd lawn hwyl.

- Trefnu digwyddiadau lle mae pobl yn gallu mwynhau awyr y nos a dysgu am y Gofod. Fe ddylen ni wneud hyn mewn ffordd sydd ddim yn effeithio ar y bywyd gwyllt.

3. Gwneud bioamrywiaeth y parc yn well

Mae **bioamrywiaeth** yn meddwl bod gennych chi lawer o wahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid.

Rydyn ni eisiau gwneud bioamrywiaeth y parc yn well drwy:

- Amddiffyn ardaloedd sydd yn dda i fywyd gwyllt. Fel caeau gwair, llwyni, ffrydiau a choedlannau.

- Stopio planhigion sydd yn gwneud drwg rhag cymryd drosodd ardaloedd cyfan.

- Gweithio gyda'n gilydd i stopio tanau rhag gwneud drwg i'r parc a'r bywyd gwyllt.

- Helpu pobl i ddefnyddio llai o olau. Mae gormod o olau yn gallu effeithio ar anifeiliaid fel dyfrgwn ac ystlumod.

- Amddiffyn ardaloedd sydd yn dda i wenyn.

- Amddiffyn y môr. Er enghraifft drwy ddysgu pobl i beidio rhoi sbwriel yn y môr.

- Prynu neu rentu ardaloedd sydd yn dda i fioamrywiaeth fel nad ydy pobl yn gallu adeiladu arnyn nhw.

- Helpu pobl i dyfu bwyd mewn ffordd sydd ddim yn gwneud drwg i'r amgylchedd.

- Stopio pobl rhag gwneud drwg i anifeiliaid.

- Dysgu pobl am fioamrywiaeth y parc mewn ffordd gyffrous.

4. Dathlu ein hanes ni

Mae'n bwysig ein bod ni'n edrych ar ôl hen leoedd ac adeiladau. Mae ganddyn nhw lawer i'w ddysgu inni am ein hanes ni.

Rydyn ni eisiau eu hamddiffyn drwy:

- Stopio pobl rhag gwneud drwg i hen leoedd ac adeiladau. A gweithio gyda'r heddlu i wneud i hyn ddigwydd.

- Dysgu'r cyhoedd amdanyn nhw a'i gwneud hi'n haws i bobl fynd i'w gweld nhw.

- Gofyn i wirfoddolwyr helpu i ofalu amdanyn nhw.

- Gwneud yn siŵr eu bod nhw'n ddiogel.

- Eu trwsio nhw os nad ydyn nhw'n ddiogel.

- Tynnu lluniau ohonyn nhw os nad ydy hi'n bosibl eu trwsio nhw, fel bod pobl yn gallu gweld sut roedden nhw'n edrych.

- Amddiffyn adeiladau sydd ddim ond i'w gweld yn ardal Sir Benfro.

5. Dathlu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Rydyn ni eisiau:

Helpu pobl i fwynhau siarad Cymraeg.

Helpu i gael 1 miliwn o bobl i siarad Cymraeg erbyn 2050.

Gweithio gyda grwpiau i wneud yn siŵr ein bod hi'n cofio traddodiadau lleol fel **tafodieithoedd**, caneuon a chrefftau.

Tafodiaith ydy pan mae iaith ychydig yn wahanol mewn ardal arbennig.

Rhoi cyfle i bobl ddweud eu straeon nhw am fyw yn y parc.

Dysgu pobl am beth mae cofgolofnau yn ei feddwl er mwyn iddyn nhw allu eu mwynhau nhw.

6. Edrych ar ôl ein hadnoddau naturiol hi

Rydyn ni eisiau amddiffyn ein hadnoddau naturiol drwy:

- Defnyddio'r ynni sydd yn cael ei wneud o wynt, dŵr a golau'r haul yn lle tanwydd fel glo ac olew.

- Helpu pobl i ddefnyddio llai o geir. Fe fydd hyn yn meddwl ein bod hi'n rhoi llai o **garbon diocsid** yn yr awyr.

Nwy ydy **carbon diocsid** sydd yn cael ei wneud pan rydyn ni'n llosgi glo ac olew. Mae'n ein helpu ni i wneud trydan ond mae hefyd yn gwneud y byd yn rhy boeth.

- Plannu coed oherwydd maen nhw'n tynnu carbon diocsid allan o'r awyr.

- Gwneud yn siŵr nad ydy adeiladau newydd yn gwneud drwg i'r amgylchedd. Ac nad ydy eu sbwriel a'u dŵr gwastraff nhw yn gwneud drwg i'r amgylchedd.

- Gwneud yn siŵr nad ydyn ni'n rhoi gormod o gemegolion niweidiol yn yr awyr.

- Cadw’r pridd yn iach. Mae pridd iach yn dda i dyfu planhigion a bwyd. Mae pridd hefyd yn gallu tynnu carbon diocsid allan o’r awyr.

- Helpu pobl i dyfu bwyd mewn ffordd sydd ddim yn gwneud drwg i’r amgylchedd.

Cadw mewn cysylltiad

Rydyn ni'n falch bod y cyhoedd a mudiadau eraill wedi dweud wrthyn ni beth yw eu syniadau nhw.

Bydd arnon ni angen gweithio gyda'n gilydd i wneud i'n cynllun ni ddigwydd dros y pum mlynedd nesaf.

Rydyn ni wedi gwneud grŵp sy'n cael ei alw'n **Grŵp Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymrwymiad**. Byddan nhw'n gwneud yn siŵr bod y cyhoedd a grwpiau eraill yn dal i gymryd rhan wrth i ni weithio ar ein cynllun ni.

Os oes gennych chi unrhyw syniadau cysylltwch â ni trwy ddefnyddio ein manylion cyswllt ar dudalen 2.

Diolch.

Geiriau anodd

Adnoddau naturiol
Adnoddau naturiol ydy'r pethau yn yr amgylchedd rydyn ni'n gallu eu defnyddio nhw. Er enghraifft: dŵr i'w yfed, bwyd i'w fwyta, aer i anadlu, gwynt a dŵr i wneud ynni.

Amgylchedd
Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr a phopeth sydd yn byw ynddo fe ac arno fe. Er enghraifft: planhigion, anifeiliaid, pysgod.

Bioamrywiaeth
Bioamrywiaeth ydy pan mae gennych chi lawer o wahanol fathau o blanhigion ac anifeiliaid.

Carbon diocsid
Nwy ydy carbon diocsid sydd yn cael ei wneud pan rydyn ni'n llosgi tanwydd fel glo ac olew. Mae'n ein helpu ni i wneud trydan ond mae hefyd yn gwneud y byd yn rhy boeth.

Diwylliant
Mae diwylliant yn meddwl y syniadau, gwerthoedd a thraddodiadau sydd gan grŵp o bobl.

Dementia
Cyflwr sydd yn effeithio ar yr ymennydd ydy dementia. Mae gan bobl sydd â dementia broblemau gyda'r cof ac maen nhw'n gallu mynd yn ddryslyd. Fel arfer mae'n effeithio ar bobl hŷn.

Economi
Economi ydy'r swyddi mae pobl yn ei wneud a'r arian sydd gauddyn nhw.

Hygyrch
Mae hygyrch yn meddwl bod pawb yn gallu ei gyrraedd e a'i ddefnyddio e yn hawdd.

Llesiant
Llesiant ydy unrhyw beth i wneud gyda'ch iechyd a'ch hapusrwydd chi.

Tafodiaith
Tafodiaith ydy pan mae iaith ychydig yn wahanol mewn ardal arbennig.